# Amcangyfrifon rhagarweiniol o'r refeniw posibl o ‘dreth ar dwristiaeth’ yng Nghymru

## Adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru

LE Wales

Ebrill 2021

## LE Wales

Ymgynghoriaeth sy'n rhoi cyngor ar faterion economaidd a pholisi i gleientiaid sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yw LE Wales ac mae'n enw masnachol ar London Economics Limited. Mae London Economics yn un o brif ymgyngoriaethau economeg a pholisi Ewrop, gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd, Llundain, Brwsel, Dulyn a Budapest a swyddfeydd cysylltiedig ym Mharis a Valletta. Rydym yn ymgynghoriaeth economeg flaenllaw sy'n arbenigo ym maes economeg polisi cyhoeddus. Fel ymgynghorwyr economeg arbenigol, rydym yn darparu gwasanaeth gwahanol i'r hyn a gynigir gan y cwmnïau cyfrifyddu mawr a'r economegwyr academaidd, yn yr ystyr ein bod yn gallu cynnig trylwyredd academaidd a gwaith rheoli prosiect priodol i'n cleientiaid. Mae ein hymgynghorwyr yn cynnig ystod gynhwysfawr o sgiliau, sy'n cwmpasu pob agwedd ar waith dadansoddi economaidd ac ariannol a datblygu polisi.

Mae ein tîm yn cynnwys economegwyr medrus o gefndiroedd deallusol cadarn. Mae gan bob un o'n huwch-ymgynghorwyr economaidd radd ôl-raddedig mewn economeg o brifysgol flaenllaw a phrofiad academaidd ac ymarferol helaeth. Mae LE Wales yn gallu cyfuno trylwyredd academaidd a chontract arbenigol.

**Prif Swyddfa:** Somerset House, New Wing, Strand, London, WC2R 1LA, United Kingdom.

gwefan: www.le-wales.co.uk e-bost: info@le-wales.co.uk
ffôn: +44 (0)2920 660 250 ffacs: +44 (0)2920 660 251

## Awduron

Greta Dohler
Siôn Jones

# Tabl Cynnwys

Tudalen


Crynodeb Gweithredol ii

1 Cyflwyniad 1

2 Ffynonellau data a dull gweithredu 1

2.1 Data ar lefelau twristiaeth 1

2.2 Strwythurau a lefelau treth 4

2.3 Cyfyngiadau'r dadansoddiad presennol ac awgrymiadau ar gyfer gwaith dadansoddi yn y dyfodol 6

3 Amcangyfrifon o refeniw 9

3.1 Effeithiau Ymddygiadol 13

Mynegai o Dablau, Ffigurau a Blychau 15

ATODIADAU 1

Atodiad 1 Data 15

A1.1 Yr IPS 15

A1.2 Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 15

Atodiad 2 Briff Llywodraeth Cymru 17

A2.1 Cyflwyniad 17

A2.2 Cefndir / Nodau / Amcanion 17

A2.3 Gofyniad 17

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r astudiaeth fer hon yn rhoi amcangyfrifon rhagarweiniol o'r refeniw a allai gael ei gynhyrchu drwy godi treth ar dwristiaeth yng Nghymru. Rydym yn defnyddio data cyhoeddus ar dwristiaeth yng Nghymru ar gyfer 2019 i amcangyfrif y refeniw posibl o amrywiaeth o opsiynau ar gyfer codi treth ar dwristiaeth, fel petaent wedi cael eu rhoi ar waith ar lefel Cymru gyfan yn 2019.[1]

Wrth amcangyfrif y refeniw a allai gael ei gynhyrchu, nid ydym yn rhagdybio unrhyw ymateb ymddygiadol, h.y. nad yw cyflwyno treth yn effeithio ar nifer y nosweithiau a dreulir gan ymwelwyr yng Nghymru, na gwariant ar lety ac ati.[2] Yn seiliedig ar bolisïau treth ar dwristiaeth a roddwyd ar waith mewn dinasoedd Ewropeaidd eraill, rydym wedi llunio rhestr o saith polisi treth gwahanol a phum lefel wahanol ar gyfer pob polisi a gymhwyswyd at ddata twristiaeth Cymru. Mae'r lefelau treth yn adlewyrchu'n fras y gwahanol lefelau treth mewn cyrchfannau twristiaeth Ewropeaidd eraill. Mae'r polisïau treth yn cynnwys trethi safonol ac amrywiadwy y gellir eu codi y noson neu fesul arhosiad ac a all amrywio yn ôl y tymor a'r math o lety.

Mae'r amcangyfrifon rhagarweiniol o'r refeniw o dreth a gynhyrchid drwy godi treth unffurf ar dwristiaeth yng Nghymru ar lefel genedlaethol yn amrywio o £14 miliwn i £113 miliwn yn dibynnu ar y math o bolisi treth a lefel y dreth. Mae Tabl 1 yn nodi ystod y refeniw posibl o dreth o wahanol opsiynau sy'n seiliedig ar dreth unffurf.

### Tabl 1 Amcangyfrifon o'r refeniw o dreth, £m (treth unffurf)

| Math o dreth | | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y pen/y noson | *Lefel treth:* | *£0.50* | *£1.00* | *£2.00* | *£3.00* | *£4.00* |
| | *Refeniw o dreth:* | **£14m** | **£28m** | **£57m** | **£85m** | **£113m** |
| Y pen/fesul arhosiad | *Lefel treth:* | *£2.00* | *£3.00* | *£4.00* | *£5.00* | *£6.00* |
| | *Refeniw o dreth:* | **£17m** | **£25m** | **£33m** | **£42m** | **£49m** |
| Y pen/y noson yn ôl y tymor* | *Lefelau treth:* | *Uchel: £1.00 Isel: £0.50* | *Uchel: £2.00 Isel: £1.00* | *Uchel: £3.00 Isel: £1.00* | *Uchel: £3.00 Isel: £2.00* | *Uchel: £4.00 Isel: £2.00* |
| | *Refeniw o dreth:* | **£23m** | **£47m** | **£66m** | **£74m** | **£94m** |
| Y pen/y noson yn ôl categori prisiau** | *Lefelau treth:* | *Uchel: £2.00 Canol: £1.00 Isel: £0.50* | *Uchel: £2.50 Canol: £1.50 Isel: £1.00* | *Uchel: £3.00 Canol: £2.00 Isel: £1.00* | *Uchel: £4.00 Canol: £2.50 Isel: £1.00* | *Uchel: £5.00 Canol: £3.00 Isel: £2.00* |
| | *Refeniw o dreth:* | **£20m** | **£34m** | **£38m** | **£42m** | **£68m** |

***Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales o ddata Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) a'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS)***

*Ar gyfer trethi tymhorol, mae'r tymor prysur yn cynnwys chwarter 1 a chwarter 4, mae'r tymor tawel yn cynnwys chwarter 2 a chwarter 3.

[1]Rydym ar ddeall mai'r bwriad ar hyn o bryd yw, petai unrhyw dreth ar dwristiaeth yn cael ei chyflwyno, y byddai ar ffurf pŵer a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflwyno treth o'r fath yn eu hardaloedd eu hunain petaent yn dymuno gwneud hynny. Mae cyfyngiadau data yn golygu, yn yr amser sydd ar gael, nad ydym wedi amcangyfrif y refeniw posibl o dreth ar dwristiaeth ar lefel awdurdodau lleol unigol.

[2]Mewn gwirionedd, mae'n debygol y byddai rhyw ymateb ymddygiadol y disgwylid iddo leihau'r refeniw o dreth. Ceir trafodaeth ynghylch amcangyfrifon o'r ymateb hwn mewn cyd-destunau eraill yn GLA Economics (2017).

**Ar gyfer categorïau prisiau llety, mae uchel yn cynnwys 25% o'r holl nosweithiau/gwariant ar gyfer gwestai a motelau; mae canol yn cynnwys 50% o'r holl westai/motelau, a'r holl dai a fflatiau rhent; mae isel yn cynnwys 25% o westai/motelau, llety gwely a brecwast, hosteli, gwersylla a llety masnachol arall.

Os defnyddir treth amrywiadwy i Gymru, amcangyfrifir y bydd y refeniw o dreth rhwng £12 miliwn a £50 miliwn, yn dibynnu ar y polisi treth a lefel y dreth. Dengys Tabl 2 ystod y refeniw o dreth o bolisïau treth amrywiadwy gwahanol.

### Tabl 2 Amcangyfrifon o'r refeniw o dreth, £m (treth amrywiadwy)

| | | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r tâl a godir am y llety | *Lefelau treth:* | *2%* | *3%* | *4%* | *5%* | *6%* |
| | *Refeniw o dreth:* | **£17m** | **£25m** | **£34m** | **£42m** | **£50m** |
| % o'r tâl a godir am y llety yn ôl y tymor* | *Lefelau treth:* | *Uchel: 2%<br>Isel: 1%* | *Uchel: 3%<br>Isel: 2%* | *Uchel: 4%<br>Isel: 2%* | *Uchel: 5%<br>Isel: 3%* | *Uchel: 6%<br>Isel: 3%* |
| | *Refeniw o dreth:* | **£12m** | **£19m** | **£25m** | **£31m** | **£37m** |
| % o'r tâl a godir am y llety yn ôl categori prisiau** | *Lefelau treth:* | *Uchel: 3%<br>Canol: 2%<br>Isel: 1%* | *Uchel: 4%<br>Canol: 3%<br>Isel: 2%* | *Uchel: 5%<br>Canol: 4%<br>Isel: 3%* | *Uchel: 6%<br>Canol: 4.5%<br>Isel: 3%* | *Uchel: 7%<br>Canol: 5%<br>Isel: 3.5%* |
| | *Refeniw o dreth:* | **£12m** | **£21m** | **£26m** | **£31m** | **£36m** |

***Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales o ddata GBTS ac IPS***

*Ar gyfer trethi tymhorol, mae'r tymor prysur yn cynnwys chwarter 1 a chwarter 4, mae'r tymor tawel yn cynnwys chwarter 2 a chwarter 3.

**Ar gyfer categorïau prisiau llety, mae uchel yn cynnwys 25% o'r holl nosweithiau/gwariant ar gyfer gwestai a motelau; mae canol yn cynnwys 50% o'r holl westai/motelau, a'r holl dai a fflatiau rhent; mae isel yn cynnwys 25% o westai/motelau, llety gwely a brecwast, hosteli, gwersylla a llety masnachol arall.

Oherwydd natur ragarweiniol y dadansoddiad hwn a'r ffaith nad oes data mwy manwl ar gael, mae rhai cyfyngiadau ar yr amcangyfrifon presennol o'r refeniw o dreth. Mae hyn yn golygu bod lle i wneud ymchwil yn y dyfodol, fel a ganlyn.

1) Nid ydym wedi amcangyfrif y refeniw posibl o dreth fesul ystafell. Gellid ymchwilio i hyn yn y dyfodol drwy gyfuno data ar y stoc welyau gyfan yng Nghymru â data ar gyfraddau deiliadaeth.
2) Petai Llywodraeth Cymru am esemptio plant o dan 16 neu 18 oed rhag treth ar dwristiaeth, gellid gofyn am ragor o ddadansoddiadau seiliedig ar oedran o ddata Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr gan Croeso Cymru.
3) Ymddengys fod rhai anghysondebau yn y data ar nifer yr eiddo gwyliau rhent. Ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol, efallai y bydd yn ddefnyddiol cael data mwy diweddar a manylach ar lety hunanddarpar, yn uniongyrchol gan Airbnb o bosibl.
4) Petai Llywodraeth Cymru am ei gwneud yn bosibl i gyfraddau treth amrywio yn ôl y math o lety a'i safon, efallai y byddai angen rhagor o ddata ar ddosbarthiad eiddo yn ôl gradd sêr. Byddai gwell data ar wariant ar lety hefyd yn ddymunol er mwyn helpu i gyflwyno treth amrywiadwy yn seiliedig ar wariant ar lety.
5) Rydym wedi defnyddio data cenedlaethol i Gymru er mwyn rhoi trethi ar waith yn lleol a byddai'n ddymunol deall yr effeithiau yn lleol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae lefelau twristiaeth yn uchel.

6) Nid yw'r dadansoddiad hwn yn ystyried effaith pandemig COVID-19 a dylai datblygiadau yn y sector twristiaeth wedi'r pandemig lywio amcangyfrifon o'r refeniw posibl o dreth yn y dyfodol.

7) Efallai y bydd hefyd yn bosibl ymchwilio ymhellach i'r graddau y mae unrhyw dreth ar dwristiaeth yn debygol o gael ei thalu gan ymwelwyr o Gymru.

8) Gallai gwaith ymchwil yn y dyfodol geisio ymgorffori ymateb ymddygiadol gan ddefnyddwyr i dreth ar dwristiaeth mewn model o refeniw o dreth.

9) Bydd angen dadansoddiad pellach o ymweliadau gan ffrindiau a pherthnasau sy'n aros mewn llety masnachol i'w fwydo i mewn i fodelau yn y dyfodol.

# 1 Cyflwyniad

Mae LE Wales wedi'i gontractio gan Lywodraeth Cymru i wneud ymchwil ragarweiniol i dreth bosibl ar dwristiaeth yng Nghymru. Bydd y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar lunio amcangyfrifon dangosol o'r refeniw posibl o amrywiaeth o opsiynau amgen posibl ar gyfer treth ar dwristiaeth yng Nghymru. Nodir y briff gwreiddiol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn Atodiad 1. Gwnaed y gwaith yn ystod mis Mawrth 2021.

Er y cyfeirir at y dreth fel 'treth ar dwristiaeth', rydym yn ei modelu fel petai'n gymwys i ymweliadau dros nos mewn llety masnachol (y telir amdano) yng Nghymru ac, felly, mae'n cynnwys ymweliadau at ddibenion gwyliau a busnes.

At ddibenion yr astudiaeth gychwynnol hon, gan mai prin yw'r data islaw lefel Cymru gyfan, rydym yn tybio bod treth ar dwristiaeth yn cael ei rhoi ar waith drwy Gymru gyfan. Yn ymarferol, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod yr achos dros ystyried trethi ar dwristiaeth yn debygol o gael ei ystyried ar lefel leol, hynny yw rhoi pwerau caniataol i awdurdodau lleol roi treth ar dwristiaeth ar waith.

Mae nifer o gyfyngiadau ar y dadansoddiad hwn oherwydd y data a ddefnyddiwyd, a drafodir yn fanylach yn adran 2.3. Ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol, bydd angen amcangyfrifon mwy cywir o'r refeniw o dreth, data ar nifer yr ystafelloedd, gwahaniaethau rhanbarthol, oedran ymwelwyr, gwariant ar lety yn unig ac union ddosbarthiad y mathau o lety.

Yng ngweddill yr adroddiad, rydym yn nodi ein ffynonellau data a'n dull gweithredu ynghyd â'i gyfyngiadau ym Mhennod 2; a'n hamcangyfrifon manwl o'r refeniw posibl o dreth ar dwristiaeth ym Mhennod 3.

# 2 Ffynonellau data a dull gweithredu

## 2.1 Data ar lefelau twristiaeth

Y ddwy brif ffynhonnell o ddata ar dwristiaeth dros nos yng Nghymru a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yw'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) ac Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS). Mae'r IPS yn cynnwys data ar ymwelwyr o dramor tra bod GBTS yn casglu data ar ymwelwyr domestig.

Er mwyn amcangyfrif y refeniw posibl o dreth o wahanol opsiynau ar gyfer treth ar dwristiaeth yng Nghymru mae angen data ar nifer yr ymweliadau, nifer y nosweithiau a dreuliwyd a chyfanswm gwariant twristiaid domestig a thramor yng Nghymru. Yn ddelfrydol, mae angen i'r data wahaniaethu yn ôl diben y daith a'r math o lety a chael eu cyhoeddi yn chwarterol.

### 2.1.1 Arolwg Teithwyr Rhyngwladol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnal yr IPS ac yn casglu data ar ymwelwyr tramor â'r DU ac o'r DU. Mae'r IPS yn mesur nifer yr ymweliadau a'r math o ymweliadau a wneir â'r DU ac o'r DU drwy feysydd awyr, porthladdoedd a Thwnnel y Sianel. Cynhelir yr arolwg yn barhaus drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb dienw a chyhoeddir y data yn fisol, yn chwarterol ac yn flynyddol.

Cyfanswm maint y sampl a ddefnyddir gan yr IPS ar gyfer teithwyr i'r DU ac o'r DU yw tua 250,000 y flwyddyn, sy'n cyfateb i tua 0.2% o'r holl deithwyr.[3]

Mae'r IPS yn cofnodi cyfanswm yr ymweliadau, y nosweithiau a dreuliwyd a gwariant yr holl ymwelwyr tramor sy'n aros dros nos yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n casglu gwybodaeth am y math o lety, diben yr ymweliad a rhywfaint o wybodaeth ddemograffig. At ddibenion y dadansoddiad hwn, dim ond data ar deithwyr tramor i Gymru sy'n seiliedig ar ddiben yr ymweliad a'r math o lety sy'n berthnasol. Dim ond ar sail flynyddol y mae data ar y math o lety ar gael. Mesurir y gwariant a gofnodwyd mewn termau nominal, yn seiliedig ar brisiau'r flwyddyn y maent yn cyfeirio ati. Am ddadansoddiad manwl o'r categorïau o lety a dibenion teithio, gweler adran A1.1.

### 2.1.2 Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr

Mae GBTS yn mesur nifer, gwerth a phroffil y teithiau dros nos a wneir gan bobl sy'n byw ym Mhrydain i gyrchfannau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r arolwg yn casglu data ar nifer y teithiau a wneir gan bobl sy'n byw ym Mhrydain, nifer y nosweithiau gwely ar y teithiau hynny a gwerth gwariant ar y teithiau hynny. Cynhaliwyd yr arolwg yn barhaus drwy gydol y flwyddyn drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb â thua 2,000 o oedolion yr wythnos sy'n 16 oed ac yn hŷn. Yn 2019, cynhaliwyd tua 90,000 o gyfweliadau.[4] Dim ond ar sail flynyddol y mae categorïau o lety ar gael.

### 2.1.3 Tybiaethau

Ar gyfer yr astudiaeth gychwynnol hon, gan mai prin yw'r data islaw lefel Cymru gyfan, rydym yn tybio bod treth ar dwristiaeth yn cael ei rhoi ar waith drwy Gymru gyfan. Yn ymarferol, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod yr achos dros ystyried trethi ar dwristiaeth yn debygol o gael ei ystyried ar lefel leol, hynny yw rhoi pwerau caniataol i awdurdodau lleol roi treth ar dwristiaeth ar waith. Mae hynny'n cyd-fynd â llawer o gyrchfannau twristiaeth Ewropeaidd eraill, sy'n codi trethi ar dwristiaeth yn lleol neu ar lefel dinas.

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ddata o 2019, y tybir ei bod yn flwyddyn gynrychioliadol ac mae'n cyflwyno'r data mwyaf diweddar sydd ar gael. Ar y cyfan, mae twristiaeth yng Nghymru wedi cynyddu ers 2010[5] ac ymddengys nad yw 2019 yn allanolyn. Roedd twristiaeth yn 2020 yn wahanol iawn a gallai gymryd cryn amser cyn cyrraedd y lefelau a welwyd cyn y pandemig, nad yw'r dadansoddiad hwn yn eu hystyried.

At ddibenion y dadansoddiad hwn, mae angen i'r data ar deithiau domestig a thramor fod yn gymaradwy. Nodir isod y categorïau ar gyfer y mathau o lety a ddefnyddir yn y model:

- **Llety masnachol**
  - **Gwesty/tŷ llety**
  - **Gwely a Brecwast**

[3] VisitBritain (2020). Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS). Cwestiynau Cyffredin VisitBritain. Ar gael yn: https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/Documents-Library/documents/qa_for_external_ips_users_2020.pdf [Cyrchwyd 22 Mawrth 2021].

[4] VisitBritain (2020). Adroddiad ar Dwristiaeth Prydain Fawr 2019. Ar gael yn: https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/gb_tourist_annual_report_2019_final.pdf [Cyrchwyd 22 Mawrth 2021].

[5] Looking at data for visits, spend, and nights from domestic tourism. Ar gael yn: Visit Britainhttps://www.visitbritain.org/latest-quarterly-data-area [Cyrchwyd 30 Mawrth 2021].

- ☐ **Gwersylla/cartref symudol**
- ☐ **Hostel/Prifysgol/ysgol**
- ☐ **Tŷ/fflat rent**
- ☐ **Masnachol arall**

- Ymweld â ffrindiau a pherthnasau (gan gynnwys gwesteion sy'n talu/aros am ddim gyda pherthnasau neu ffrindiau, Eich Cartref eich Hun)
- Arall

Y categorïau a ddefnyddir ar gyfer diben y daith yw:

- **Gwyliau**
- **Busnes**
- Ymweld â ffrindiau a pherthnasau
- Arall

Y categorïau mewn print trwm yw'r rhai a ystyrir yn 'dwristiaeth' ac a ddefnyddir, felly, fel y sylfaen drethu. Mae hyn yn tybio nad yw pobl sy'n ymweld â ffrindiau a pherthnasau yn aros mewn llety masnachol ac, yn yr un modd, nad yw pobl ar wyliau yn aros yn nhai ffrindiau na pherthnasau. Mae'r mwyafrif o ymweliadau dros nos â ffrindiau neu berthnasau yng Nghymru gan bobl sy'n byw ym Mhrydain Fawr yn cynnwys arhosiad yn eu cartref eu hunain neu yng nghartref ffrind neu berthynas – 72% o'r teithiau yn 2019. Ond mae lleiafrif sylweddol yn defnyddio llety masnachol a, thros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae tua un o bob pum taith o'r fath wedi defnyddio llety masnachol â gwasanaeth, gyda chyfrannau llai yn defnydddio llety hunanddarpar neu garafannau. Bydd angen dadansoddiad pellach o'r dybiaeth hon i'w bwydo i mewn i fodelau yn y dyfodol (gweler Atodiad 3 am ddadansoddiadau presennol). Mae'r rhaniad hwn yn gofyn am gyfuno rhai categorïau a ddefnyddir yn yr IPS a GBTS er mwyn sicrhau y gellir cymharu data twristiaeth ddomestig â data twristiaeth ryngwladol. Am ddadansoddiad o'r categorïau a ddefnyddir yn GBTS a'r IPS, gweler Atodiad 1.

Dim ond ar sail flynyddol y mae'r data yn ôl y math o lety ar gael. Felly, er mwyn cyfrifo'r refeniw o drethi tymhorol, defnyddir data ar ddiben y daith, gan eu bod ar gael yn chwarterol ar gyfer yr IPS. Nid yw data chwarterol ar deithiau domestig ar gael wedi'u rhannu yn ôl diben y daith. Felly, defnyddiwyd dosbarthiad blynyddol diben y daith i gyfrifo'r niferoedd chwarterol ar gyfer pob categori.

Mae gwariant ar lety fel cyfran o gyfanswm y gwariant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yng Nghymru, roedd yn cyfateb i 41% o gyfanswm y gwariant yn 2019 a 39% neu 40% yn y tair blynedd flaenorol.[6,7] Yn 2019, cyfrannau'r gwariant ar lety yn Lloegr a'r Alban oedd 38% a 37%, yn y drefn honno. Mae'r ffigurau hyn yn debyg i ddata eraill sy'n awgrymu mai'r cyfartaledd ledled yr UE yn 2017 oedd 37%.[8] Ar gyfer ein hamcangyfrifon ar gyfer Cymru tybiwyd mai 40% oedd cyfran y gwariant ar lety. Gan fod y gyfran hon yn amrywio, mewn gwaith ymchwil yn y dyfodol bydd yn bwysig deall sensitifrwydd unrhyw amcangyfrifon o refeniw i'r dybiaeth hon.

---

[6] Adroddiad blynyddol GBTS, tudalen 94. Mae hyn yn ymdrin â'r holl wariant sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, nid dim ond gwariant ar wyliau. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-08/great-britain-tourist-statistics-2019.pdf

[7] Rhwng 2011 a 2019, roedd cyfran llety o gyfanswm y gwariant yn amrywio o 35% i 43%.

[8] Eurostat (2017). Ar gael yn: https://ec.europa.eu/eurostat/statistics-explained/index.php/Tourism_statistics_-_expenditure#Accommodation_took_up_the_largest_share_of_the_tourism_budget_of_EU_residents [cyrchwyd 24 Mawrth 2021].

## 2.2 Strwythurau a lefelau treth

### 2.2.1 Enghreifftiau o ddinasoedd Ewropeaidd eraill

Ledled Ewrop, mae llawer o ddinasoedd a chyrchfannau twristiaeth yn codi treth ar dwristiaeth, y cyfeirir ati hefyd fel treth deiliadaeth. Codir trethi ar dwristiaeth ar gyfer ar arosiadau byrdymor mewn llety y telir amdano yn ychwanegol at TAW. Mae'r TAW a godir ar westai yn amrywio yn ôl gwlad, gyda chyfartaledd o 11% ar gyfer yr 28 o wledydd sy'n aelodau o'r UE. O'r 28 o wledydd yn yr UE, mae 19 o wledydd yn codi treth ar dwristiaeth.[9] Fel arfer, codir trethi ar dwristiaeth ar lefel llywodraeth leol (h.y. dinas, bwrdeistref neu dalaith) ac fe'u cesglir gan ddarparwyr y llety eu hunain.[10] Fel arfer, mae hyn yn cynnwys gwestai, tai llety a hosteli ond, ar gyfer mathau eraill o lety megis gwersyllfaoedd neu lety hunanddarpar, megis rhandai, tai ac eiddo Airbnb a rentir, efallai na fydd y broses o gasglu treth mor syml â hynny.

Mae dinasoedd gwahanol yn defnyddio mathau a lefelau gwahanol o drethi ar dwristiaeth. Gellir dosbarthu'r trethi ar dwristiaeth yn ddau gategori, sef: trethi unffurf ac amrywiadwy. At hynny, gall fod amrywiadau tymhorol neu drethi sy'n dibynnu ar y categori o lety megis gradd sêr y gwesty. Gellir cymhwyso'r amrywiadau hyn at drethi amrywiadwy neu unffurf. Mae plant hyd at 16 neu 18 oed yn aml yn talu cyfraddau is neu maent wedi'u esemptio rhag y dreth deiliadaeth.[11]

**Trethi unffurf**

Y dreth unffurf a ddefnyddir gan amlaf yw treth safonol a godir y pen y noson. Yn y rhan fwyaf o ddinasoedd Ewropeaidd, mae lefelau treth tua €2 i €3, megis yn Lisbon neu Antwerp. Mae'r polisi treth hwn yn hawdd i'w weithredu a'i wirio. Un o anfanteision y dreth hon yw ei bod yn gyfran uwch o'r pris a delir gan ddefnyddwyr sy'n aros mewn llety rhatach o gymharu â'r gyfran o'r pris a delir gan ddefnyddwyr sy'n aros mewn llety drud. Gan dybio, ar gyfartaledd, fod pobl ar incwm is yn aros mewn llety rhatach, mae hyn yn golygu bod y polisi treth hwn yn un anraddoledig dros ystod incymau pobl sy'n mynd ar wyliau. Cwestiwn arall sy'n codi yw a yw'r dreth hon yn gymwys i westai a thai llety yn unig neu a yw'n gymwys i wersyllfaoedd hefyd.

Opsiwn arall yw codi treth unffurf fesul ystafell y noson, rhywbeth y mae Brwsel yn ei wneud ar lefel o €4.25 y noson. Yn achos gwestai, efallai y byddai treth o'r fath yn haws i'w gweithredu na threth y pen ond yn fwy anodd yn achos lleoedd fel gwestai, lle mae sawl unigolyn yn rhannu ystafell ond nad ydynt, o reidrwydd, yn teithio gyda'i gilydd. Byddai'r dreth yn effeithio ar deithwyr unigol yn fwy nag ar deuluoedd, cyplau neu grwpiau. Yn achos trethi y noson, a godir fesul ystafell a fesul person, fel arfer mae'r taliadau a godir wedi'u capio ar nifer benodol o nosweithiau, sy'n amrywio o 7 yn Lisbon, 10 yn Rhufain i 21 o nosweithiau ym Merlin.[12]

Trydydd opsiwn, llai cyffredin, ar gyfer treth unffurf yw codi tâl y pen fesul arhosiad, waeth pa mor hir yw'r arhosiad. Defnyddir y polisi treth hwn weithiau ar gyfer parciau cenedlaethol neu ynysoedd fel tâl mynediad i dwristiaid. Un enghraifft yw'r ynysoedd Eolaidd yn Sisili, lle y codir €1.50 ar

[9] Cyngor Dinas Caeredin (2018). Edinburgh Transient Visitor Levy.

[10] Comisiwn yr UE (dim dyddiad). Tourism-related taxes across the EU. Ar gael yn: https://ec.europa.eu/growth/sectors/tourism/business-portal/financing-your-business/tourism-related-taxes-across-eu_en [cyrchwyd 22 Mawrth 2021].

[11] Ibid.

[12] ETOA (2021). Tourism tax rates. Ar gael yn: https://www.etoa.org/destinations/tourist-tax-rates/ [cyrchwyd 22 Mawrth 2021].

ymwelwyr[13]. Yn yr un modd, mae parc cenedlaethol Raja Ampat yn Indonesia yn codi IDR 1,000,000 (tua £50) ar ymwelwyr tramor ac IDR 500,000 (tua £25)[14] ar ymwelwyr domestig, ni waeth pa mor hir y maent yn aros ar yr ynysoedd fel tariff i gefnogi gwasanaethau diogelu'r amgylchedd. Yn achos dinasoedd, mae'r math hwn o dreth yn llai cyffredin gan nad yw'n codi tâl ar ymwelwyr yn ôl hyd eu harhosiad.

**Trethi amrywiadwy**

Mae llawer o ddinasoedd yn codi treth amrywiadwy sy'n seiliedig ar ganran o bris y llety. Mae Amsterdam yn codi 7% o bris y llety, mae Berlin yn codi treth o 5% ac mae Fienna yn codi 3.2%. Mae'r math hwn o dreth yn effeithio ar bawb i'r un graddau. Fodd bynnag, gall prisiau llety amrywio oherwydd newidiadau tymhorol yn y galw, achlysuron arbennig (e.e. cynadleddau, gwyliau, digwyddiadau) neu gynigion arbennig. Felly, gall gwerth ariannol trethi a godir am yr un eiddo gwyliau rhent amrywio'n fawr drwy gydol y flwyddyn, sy'n golygu eu bod yn fwy anodd i'w monitro.

Yn ogystal â'r polisïau treth hyn, gall dinasoedd hefyd bennu cyfraddau neu lefelau treth amrywiol yn dibynnu ar y tymor a'r math o lety. Yn Fenis, mae'r cyfraddau treth yn amrywio rhwng €3 a €10 yn ystod y flwyddyn ac mae ynysoedd Sbaen (e.e. Mallorca, Ibiza) yn gostwng eu trethi hyd at 75% rhwng mis Tachwedd a mis Ebrill. Mewn sawl dinas megis Paris, Rhufain, Athen neu Fflorens, mae'r trethi yn amrywio yn ôl y math o lety. Mae cyfraddau treth yn uwch ar gyfer llety drutach, megis gwestai 5*, tra bod y cyfraddau treth ar gyfer gwestai neu hosteli 2* neu 1* yn is. Mae dosbarthiad y mathau o lety ar gyfer gwestai yn glir iawn ac yn seiliedig ar y radd sêr yn y wlad berthnasol. Mae mathau eraill o lety, megis tai neu randai rhent neu lety Airbnb, yn fwy anodd i'w dosbarthu oherwydd mae eu prisiau yn amrywio'n fawr ond nid oes unrhyw wahaniaeth clir rhyngddynt fel gyda graddau gwestai.

Gellir cyfuno trethi tymhorol a threthi sy'n seiliedig ar ddosbarth â threthi amrywiadwy neu unffurf.

### Tabl 3 Trosolwg o drethi ar dwristiaeth

| | Math | Disgrifiad | Enghraifft |
|---|---|---|---|
| Unffurf | Y pen y noson | Codir swm penodedig ar bob twrist y noson | €2 yn Lisbon<br>€3 yn Ghent; €2.39 yn Antwerp |
| | Fesul ystafell y noson | Tâl penodedig am bob ystafell | €4.25 ym Mrwsel |
| | Y pen fesul arhosiad | Tâl penodedig ar gyfer pob twrist waeth pa mor hir yw'r arhosiad | €1.50 ar yr ynysoedd Eolaidd yn Sisili<br>15.68 BGN Lev (£6.90) ar gyfer cyrchfannau gwyliau ym Mwlgaria |
| Amrywiadwy | Canran o'r tâl a godir am y llety | Codi canran o bris y llety fel treth | Amsterdam cyfradd llety o 7% y noson; Berlin 5%; Fienna 3.2%; 4% yn Budapest; 1% yn Rwmania |
| Arall | Trethi tymhorol | Amrywio trethi yn y tymor prysur a'r tymor tawel (e.e. yr haf a'r gaeaf) | Yn amrywio rhwng €3 a €10 y dydd yn Fenis (y tymor tawel rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth); ar ynysoedd Sbaen hyd at 75% yn is rhwng mis Tachwedd a mis Ebrill |
| | Trethi yn seiliedig ar | Codi trethi unffurf/amrywiadwy yn | Paris: rhwng €4 a €0.23; |

[13] Cyngor Dinas Caeredin (2018). Edinburgh Transient Visitor Levy.

[14] IDR 1 = £0.00005. Ar gael yn: https://www.xe.com/ [cyrchwyd 18 Mawrth 2021].

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gategori prisiau llety | seiliedig ar y categori o lety (e.e. gradd sêr gwesty) | Rhufain: €7 ar gyfer gwestai 5*, €6 ar gyfer 4*, €4 ar gyfer 3*, €3 ar gyfer 1* a 2*, heb gynnwys hosteli;<br>Fflorens: €5 ar gyfer 5*, €4 ar gyfer 4*, €3 ar gyfer 3*;<br>Gwlad Groeg: €4 ar gyfer 5*, €3 ar gyfer 4*, €1.50 ar gyfer 3*, €0.50 ar gyfer 1* a 2*;<br>Ynysoedd Sbaen: rhwng €4 a €2 |

***Ffynhonnell: Cyngor Dinas Caeredin (2018). Edinburgh Transient Visitor Levy ac ETOA***[15]

### 2.2.2 Strwythurau a lefelau treth a ddewiswyd ar gyfer y dadansoddiad hwn

Mae'r dadansoddiad hwn yn modelu 7 strwythur treth gwahanol – 4 strwythur treth unffurf a 3 strwythur treth amrywiadwy. Ar gyfer pob strwythur treth, defnyddir 5 lefel wahanol er mwyn rhoi ystod o amcangyfrifon o'r refeniw posibl o dreth y gellir ei gael o'r math hwn o bolisi treth deiliadaeth. Gan nad oes unrhyw ddata ar gael ar ystafelloedd o wahanol gategorïau yng Nghymru, ni chynhwyswyd y dreth fesul ystafell y noson.

Nodir y gwahanol fathau a lefelau o dreth yn Nhabl 2:

**Tabl 4 Lefelau treth**

| | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y pen/y noson | £0.50 | £1.00 | £2.00 | £3.00 | £4.00 |
| Y pen/fesul arhosiad | £2.00 | £3.00 | £4.00 | £5.00 | £6.00 |
| Tymhorol y pen/y noson* | Uchel: £1.00<br>Isel: £0.50 | Uchel: £2.00<br>Isel: £1.00 | Uchel: £3.00<br>Isel: £1.00 | Uchel: £3.00<br>Isel: £2.00 | Uchel: £4.00<br>Isel: £2.00 |
| Y pen/y noson yn ôl categori prisiau** | Uchel: £2.00<br>Canol: £1.00<br>Isel: £0.50 | Uchel: £2.50<br>Canol: £1.50<br>Isel: £1.00 | Uchel: £3.00<br>Canol: £2.00<br>Isel: £1.00 | Uchel: £4.00<br>Canol: £2.50<br>Isel: £1.00 | Uchel: £5.00<br>Canol: £3.00<br>Isel: £2.00 |
| % o'r tâl a godir am y llety | 2% | 3% | 4% | 5% | 6% |
| Tymhorol % o'r tâl a godir am y llety | Uchel: 2%<br>Isel: 1% | Uchel: 3%<br>Isel: 1.5% | Uchel: 4%<br>Isel: 2% | Uchel: 5%<br>Isel: 2.5% | Uchel: 6%<br>Isel: 3% |
| % o'r tâl a godir am y llety yn ôl categori prisiau | Uchel: 3%<br>Canol: 2%<br>Isel: 1% | Uchel: 4%<br>Canol: 3%<br>Isel: 2% | Uchel: 5%<br>Canol: 4%<br>Isel: 2.5% | Uchel: 6%<br>Canol: 4.5%<br>Isel: 3% | Uchel: 7%<br>Canol: 5%<br>Isel: 3.5% |

***Ffynhonnell: LE Wales***

*Ar gyfer trethi tymhorol, mae'r tymor prysur yn cynnwys chwarter 1 a chwarter 4, mae'r tymor tawel yn cynnwys chwarter 2 a chwarter 3.

**Ar gyfer categorïau prisiau llety, mae uchel yn cynnwys 25% o'r holl nosweithiau/gwariant ar gyfer gwestai a motelau; mae canol yn cynnwys 50% o'r holl westai/motelau, a'r holl dai a fflatiau rhent; mae isel yn cynnwys 25% o westai/motelau, llety gwely a brecwast, hosteli, gwersylla a llety masnachol arall.

## 2.3 Cyfyngiadau'r dadansoddiad presennol ac awgrymiadau ar gyfer gwaith dadansoddi yn y dyfodol

Gyda'r data a gafwyd gan yr IPS a GBTS, mae i'r dadansoddiad hwn nifer o gyfyngiadau, sy'n effeithio ar ddibynadwyedd a chywirdeb yr amcangyfrifon o'r refeniw o dreth.

- Yn gyntaf, nid oes unrhyw ddata diweddar ar nifer yr ystafelloedd sy'n cael eu rhentu ac, felly, ni ellir amcangyfrif y refeniw a gynhyrchir drwy godi tâl fesul ystafell y noson. Fodd

[15] ETOA (2021). Tourism tax rates. Ar gael yn: https://www.etoa.org/destinations/tourist-tax-rates/ [Cyrchwyd 31 Mawrth 2021].

bynnag, ceir data ar stoc welyau Cymru ar gyfer 2013.[16] Gellid cyfuno'r data hyn, neu amcangyfrifon mwy diweddar, â data ar gyfraddau deiliadaeth mewn llety, sydd ar gael o arolwg deiliadaeth llety twristiaeth Cymru[17] er mwyn amcangyfrif y refeniw o dreth fesul ystafell y noson.

10) Yn ail, os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu esemptio plant o dan 16 neu 18 oed rhag y dreth ar dwristiaeth, mae'r canlyniadau a nodwyd yn goramcangyfrif y refeniw o dreth. Mae GBTS yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am oedran ymwelwyr ond nid yw'n gwahaniaethu yn ôl y math o lety na diben y daith yn ôl oedran, y byddai angen ei wneud er mwyn amcangyfrif y refeniw o dreth. Gall dadansoddiad ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed gael ei ddarparu gan Croeso Cymru ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol (mae dadansoddiadau o oedran yn dechrau ar 16 oed ac, felly, ni ellir dadansoddi pobl ifanc 15-17 oed. Ar gyfer yr IPS, nid oes unrhyw ddata ar oedran ymwelwyr ar gael.

- Yn drydydd, mae'n bosibl nad yw'r data ar randai na chartrefi rhent yng Nghymru a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad hwn yn gywir. Yn ôl adroddiad Insight UK gan Airbnb ar weithgarwch yn y DU ar gyfer 2018, denodd Cymru 467,000 o westeion yn y flwyddyn honno.[18] Gyda'i gilydd, mae'r IPS a GBTS ond yn cyfrif 234,000 o ymweliadau yn aros mewn rhandai neu gartrefi rhent yng Nghymru ar gyfer 2019. Er bod GBTS yn cynnwys eiddo rhent Airbnb yn benodol, mae'n bosibl nad yw'r nifer yn gywir. Nid yw'r IPS yn nodi a yw'r categori rhandai a chartrefi rhent yn cynnwys eiddo Airbnb. Felly, mae'n bosibl nad yw data ar randai na chartrefi rhent o'r IPS na GBTS yn adlewyrchu'n gywir nifer yr eiddo rhent yng Nghymru os cynhwysir eiddo Airbnb. Ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol, gallai fod yn ddefnyddiol cael data mwy diweddar a manylach ar randai a chartrefi rhent, yn uniongyrchol gan Airbnb o bosibl.
- Yn bedwerydd, er mwyn amcangyfrif yn gywir y refeniw o dreth drwy ddefnyddio gwahanol gyfraddau treth yn ôl y math o lety, mae angen data ar ddosbarthiad gwestai a llety hunanddarpar yn ôl gradd sêr. Er mwyn gwahaniaethu rhwng rhandai a thai yn ôl categorïau prisiau, mae angen data ar randai, tai ac eiddo Airbnb. Gallai data mwy cywir ar y stoc welyau (gweler uchod) sicrhau'r lefel angenrheidiol o fanylder.
- Yn bumed, nid yw'r holl ddata ar gael ar lefel yr awdurdod lleol ac, felly, ni ellir amcangyfrif y refeniw o dreth ar lefel pob awdurdod lleol. Mae data GBTS ar gael ar lefel ranbarthol[19], ond nid yw data'r IPS ar gael ar y lefel honno.
- Yn chweched, nid yw'r dadansoddiad hwn yn ystyried effaith pandemig COVID-19 ac mae'n seiliedig ar lefelau twristiaeth cyn y pandemig yn 2019. Mewn gwirionedd, efallai y bydd yn cymryd peth amser i lefelau twristiaeth yn y dyfodol gyrraedd lefelau tebyg, rhywbeth y mae'n bosibl y bydd angen i waith ymchwil yn y dyfodol ei adlewyrchu.

[16] Llywodraeth Cymru (2013). Summary of Wales Bedstock Data: Situation as at March 2013. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/131011-accommodation-bedstock-march-2013-en.pdf [cyrchwyd 23 Mawrth 2021].

[17] Llywodraeth Cymru (2019). Arolygon deiliadaeth llety twristiaeth Cymru: 2019. Ar gael yn: https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-2019 [cyrchwyd 23 Mawrth 2021].

[18] Airbnb (2018). Adroddiad UK Insights Airbnb. Ar gael yn: https://www.airbnbcitizen.com/wp-content/uploads/2018/10/AirbnbUKInsightsReport_2018.pdf [cyrchwyd 22 Mawrth 2021].


[19] O'r holl ymwelwyr domestig yn 2019, ymwelodd 17% â Chanolbarth Cymru, ymwelodd 39% â Gogledd Cymru, ymwelodd 23% â De-ddwyrain Cymru ac ymwelodd 20% â Gorllewin Cymru. Ffynhonnell: GBTS drwy Croeso Cymru. Ar gael yn: https://gbtswaleslightviewer.kantar.com/ViewTable.aspx [cyrchwyd 23 Mawrth 2021]. Bydd meintiau sampl bach yn cyfyngu ar y casgliadau y gellir eu llunio.

At hynny, efallai y bydd yn ddiddorol cael data mwy manwl ar ymwelwyr domestig, er mwyn gweld pa ymwelwyr sy'n dod o Gymru a pha ymwelwyr sy'n dod o rannau eraill o'r DU. Mae GBTS yn rhoi rhai manylion am hynny, gan fod gwesteion o Gymru yn cyfrif am 19.2% o'r holl deithiau, 16.4% o'r holl nosweithiau a 14.2% o'r holl wariant gan westeion domestig yng Nghymru yn 2019. Fodd bynnag, gellir archwilio'r data ar gyfran yr ymwelwyr o Gymru yn seiliedig ar ddiben neu'r math o lety a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol.

# 3 Amcangyfrifon o refeniw

Roedd y rhan fwyaf o ymwelwyr â Chymru yn 2019 yn dwristiaid domestig o'r DU, fel y dangosir yn Ffigur 1. Roedd ymwelwyr tramor yn cyfrif am 9% o'r holl ymweliadau ond 20% o'r holl wariant a 17% o'r nosweithiau a dreuliwyd yn 2019.

**Ffigur 1 Niferoedd Ymwelwyr â Chymru 2019**




***Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales o ddata o GBTS a'r IPS***


Drwy gymhwyso'r gwahanol bolisïau treth at ddata ar ymwelwyr dros nos â Chymru o'r IPS a GBTS, ceir ystod o amcangyfrifon o refeniw. Mae'r refeniw y gellir ei gael o dreth yn dibynnu ar y math o bolisi treth a lefel y dreth a ddewisir. Mae'r lefelau treth a fodelwyd yn seiliedig ar lefelau treth mewn gwledydd eraill yn Ewrop ac, felly, maent yn rhoi amcan o bolisïau treth cymaradwy. Fodd bynnag, gall lefelau treth adlewyrchu lefelau prisiau cenedlaethol a lleol yn ogystal â'r gyfradd TAW bresennol. Felly, mae lefelau treth yn Nwyrain Ewrop yn is, ar y cyfan, sy'n adlewyrchu lefelau prisiau cyffredinol is. Yn yr un modd, mae gan ddinasoedd megis Rhufain neu Baris drethi uchel iawn ar dwristiaeth, sy'n adlewyrchu'r nifer mawr o dwristiaid sy'n ymweld â nhw yn ogsystal â'r lefel prisiau.

Mae Ffigur 2 a Thabl 5 yn dangos ystod yr amcangyfrifon o refeniw y gellir ei gael o dreth drwy ddefnyddio treth unffurf yng Nghymru yn seiliedig ar yr opsiynau ar gyfer codi treth a ddangosir yn Nhabl 4.

- Mae'r refeniw o dreth y pen y noson yn amrywio o £14.2m ar gyfer treth o £0.50 i £113.2m ar gyfer treth o £4. Mae Pwynt 1 yn y ffigur yn dynodi'r refeniw o dreth o £1 y noson. Byddai'r refeniw o bolisi o'r fath yn cyfateb i £28.3m. Byddai £24.7m o'r refeniw hwn yn dod o ymwelwyr domestig, gyda £4.1m yn dod o ymwelwyr o Gymru yn benodol.
- Yn achos treth y pen fesul arhosiad, mae ystod y refeniw yn llawer llai ac mae'n amrywio o £16.7m o dreth o £2 i £50.0m o dreth o £6.
- Mae cynnwys amrywiadau tymhorol yn y dreth y pen y noson yn arwain at ystod fwy cyfyng o refeniw o dreth o gymharu â threth safonol y pen y noson.
- Pan gaiff gwahanol gyfraddau treth ar gyfer gwahanol gategorïau o lety eu cynnwys, mae'r refeniw o dreth yn amrywio o £19.9m i £67.9m. Byddai defnyddio lefelau treth tebyg i'r

rhai a geir yng Ngwlad Groeg (pwynt 2, gweler Tabl 3 am lefel treth Gwlad Groeg) yn golygu y byddai'r refeniw o dreth yn cyfateb i £37.6m ar gyfer Cymru. Ymwelwyr domestig a fyddai'n cyfrif am £31.2m o'r refeniw hwn, gyda £5.1m o'r cyfanswm hwnnw yn dod o ymwelwyr o Gymru.

### Ffigur 2 Amcangyfrifon o'r refeniw o dreth unffurf




***Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales o ddata o GBTS a'r IPS***

### Tabl 5 Amcangyfrifon o'r refeniw o dreth, £m (treth unffurf)

| Math o dreth | Ymwelwyr | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y pen/y noson | **Lefelau treth:** | *£0.50* | *£1.00* | *£2.00* | *£3.00* | *£4.00* |
| | Domestig: | £12m | £25m | £49m | £74m | £99m |
| | Rhyngwladol: | £2m | £4m | £7m | £11m | £14m |
| | **Cyfanswm refeniw:** | **£14m** | **£28m** | **£57m** | **£85m** | **£113m** |
| Y pen/fesul arhosiad | **Lefelau treth:** | *£2.00* | *£3.00* | *£4.00* | *£5.00* | *£6.00* |
| | Domestig: | £15m | £23m | £31m | £38m | £46m |
| | Rhyngwladol: | £1m | £2m | £3m | £3m | £4m |
| | **Cyfanswm refeniw:** | **£17m** | **£25m** | **£33m** | **£42m** | **£49m** |
| Y pen/y noson yn ôl y tymor* | **Lefelau treth:** | *Uchel: £1.00*<br>*Isel: £0.50* | *Uchel: £2.00*<br>*Isel: £1.00* | *Uchel: £3.00*<br>*Isel: £1.00* | *Uchel: £3.00*<br>*Isel: £2.00* | *Uchel: £4.00*<br>*Isel: £2.00* |
| | Domestig: | £21m | £42m | £59m | £67m | £84m |
| | Rhyngwladol: | £2m | £5m | £7m | £8m | £9m |
| | **Cyfanswm refeniw:** | **£23m** | **£47m** | **£66m** | **£74m** | **£94m** |
| Y pen/y noson yn ôl categori prisiau** | **Lefelau treth:** | *Uchel: £2.00*<br>*Canol: £1.00*<br>*Isel: £0.50* | *Uchel: £2.50*<br>*Canol: £1.50*<br>*Isel: £1.00* | *Uchel: £3.00*<br>*Canol: £2.00*<br>*Isel: £1.00* | *Uchel: £4.00*<br>*Canol: £2.50*<br>*Isel: £1.00* | *Uchel: £5.00*<br>*Canol: £3.00*<br>*Isel: £2.00* |
| | Domestig: | £16m | £29m | £31m | £34m | £57m |
| | Rhyngwladol: | £4m | £5m | £6m | £8m | £11m |
| | **Cyfanswm refeniw:** | **£20m** | **£34m** | **£38m** | **£42m** | **£68m** |

***Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales o ddata GBTS ac IPS***


*Ar gyfer trethi tymhorol, mae'r tymor prysur yn cynnwys chwarter 1 a chwarter 4, mae'r tymor tawel yn cynnwys chwarter 2 a chwarter 3.

**Ar gyfer categorïau prisiau llety, mae uchel yn cynnwys 25% o'r holl nosweithiau/gwariant ar gyfer gwestai a motelau; mae canol yn cynnwys 50% o'r holl westai/motelau, a'r holl dai a fflatiau rhent; mae isel yn cynnwys 25% o westai/motelau, llety gwely a brecwast, hosteli, gwersylla a llety masnachol arall.

Dangosir yr amcangyfrifon o'r refeniw a geir drwy godi treth deiliadaeth amrywiadwy yn Ffigur 3 a Thabl 6. Gan mai brasamcan yw cyfran cyfanswm y gwariant ar lety, dylid trin yr amcangyfrifon hyn yn ofalus.

- Mae codi treth sy'n cyfateb i 2%-6% o bris y llety yn cyd-fynd, fwy neu lai, â'r hyn a welir mewn dinasoedd Ewropeaidd eraill, gan fod Fienna, Berlin ac Amsterdam yn codi 3.2%, 5% a 7%, yn y drefn honno. Yn achos Cymru, byddai trethi amrywiadwy ar dwristiaeth yn cynhyrchu refeniw o rhwng £12.3m a £50.3m. Mae treth o 5% yn debyg i'r hyn y mae Berlin yn ei godi ar ymwelwyr sy'n aros dros nos (pwynt 3). Yng Nghymru, byddai'r polisi treth hwn yn cynhyrchu refeniw gwerth £41.9m, £34.6m o ymwelwyr domestig gyda £6m o'r swm hwnnw yn dod o ymwelwyr o Gymru.
- Gydag amrywiadau tymhorol mewn cyfraddau treth, mae'r refeniw yn amrywio o £12.5m i £37.4m.
- Mae'r refeniw o dreth yn ôl categorïau o lety yn amrywio o £12.3m i £35.7m.

### Ffigur 3 Amcangyfrifon o'r refeniw o dreth amrywiadwy




***Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales o ddata o GBTS a'r IPS***

### Tabl 6 Amcangyfrifon o'r refeniw o dreth, £m (treth amrywiadwy)

| | | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r tâl a godir am y llety | **Lefelau treth:** | *2%* | *3%* | *4%* | *5%* | *6%* |
| | Domestig:<br>Rhyngwladol:<br>**Cyfanswm refeniw:** | £14m<br>£3m<br>**£17m** | £21m<br>£4m<br>**£25m** | £28m<br>£6m<br>**£34m** | £35m<br>£7m<br>**£42m** | £42m<br>£9m<br>**£50m** |
| % o'r tâl a godir am y llety yn ôl y tymor* | **Lefelau treth:** | *Uchel: 2%*<br>*Isel: 1%* | *Uchel: 3%*<br>*Isel: 2%* | *Uchel: 4%*<br>*Isel: 2%* | *Uchel: 5%*<br>*Isel: 3%* | *Uchel: 6%*<br>*Isel: 3%* |
| | Domestig:<br>Rhyngwladol: | £11m<br>£2m | £16m<br>£3m | £22m<br>£3m | £27m<br>£4m | £32m<br>£5m |

| | Cyfanswm refeniw: | £12m | £19m | £25m | £31m | £37m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r tâl a godir am y llety yn ôl categori prisiau** | **Lefelau treth:** | *Uchel: 3%*<br>*Canol: 2%*<br>*Isel: 1%* | *Uchel: 4%*<br>*Canol: 3%*<br>*Isel: 2%* | *Uchel: 5%*<br>*Canol: 4%*<br>*Isel: 3%* | *Uchel: 6%*<br>*Canol: 4.5%*<br>*Isel: 3%* | *Uchel: 7%*<br>*Canol: 5%*<br>*Isel: 3.5%* |
| | Domestig:<br>Rhyngwladol:<br>**Cyfanswm refeniw:** | £10m<br>£3m<br>**£12m** | £17m<br>£4m<br>**£21m** | £21m<br>£5m<br>**£26m** | £25m<br>£6m<br>**£31m** | £29m<br>£7m<br>**£36m** |

***Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales o ddata GBTS ac IPS***

*Ar gyfer trethi tymhorol, mae'r tymor prysur yn cynnwys chwarter 1 a chwarter 4, mae'r tymor tawel yn cynnwys chwarter 2 a chwarter 3.

**Ar gyfer categorïau prisiau llety, mae uchel yn cynnwys 25% o'r holl nosweithiau/gwariant ar gyfer gwestai a motelau; mae canol yn cynnwys 50% o'r holl westai/motelau, a'r holl dai a fflatiau rhent; mae isel yn cynnwys 25% o westai/motelau, llety gwely a brecwast, hosteli, gwersylla a llety masnachol arall.

## 3.1 Effeithiau Ymddygiadol

Ar y cyfan, mae trethi ar dwristiaeth yn ffurfio cyfran fach o gyfanswm cost llety a TAW. Gan fod y trethi hyn yn cael eu talu'n bersonol fel arfer ac na ellir eu cynnwys ym mhris rhagdaledig llety, mae'n anodd eu gweld ym mhrisiau llety cyhoeddedig ond maent yn amlwg iawn i'r cwsmer terfynol. Gall hyn effeithio ar ddefnyddwyr terfynol a gweithgarwch sy'n ymwneud â thwristiaeth.[20]

Mae'r amcangyfrifon o'r refeniw o dreth ar gyfer Cymru yn y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar y dybiaeth nad oes unrhyw ymateb ymddygiadol gan dwristiaid i'r newid mewn pris. Yn ymarferol, mae'n bosibl na fyddai hynny'n wir. Mae rhai astudiaethau blaenorol wedi ystyried yr effaith y mae trethi ar dwristiaeth yn ei chael ar ymddygiad ac elastigedd pris y galw. Mae Durbarry a Sinclair (2000) yn edrych ar sensitifrwydd y galw ym maes twristiaeth yn y DU i newidiadau mewn prisiau, cyfraddau cyfnewid a gwariant. Maent yn nodi y byddai cynnydd o 1% mewn prisiau effeithiol yn y DU o gymharu â phris y wlad tarddiad yn arwain at ostyngiad mewn gwariant ym maes twristiaeth o tua 1%, h.y. elastigedd pris o -1.[21]

Mewn astudiaeth a gomisiynwyd gan Awdurdod Twristiaeth Prydain (BTA, VisitBritain bellach),[22] elastigedd cyfraddau cyfnewid amcangyfrifedig twristiaeth yn y DU oedd -1.3. Felly, byddai cynnydd o 1% yng nghost aros ym Mhrydain o ganlyniad i amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid yn lleihau enillion y DU o dwristiaeth ryngwladol 1.3%. Ystyrir bod twristiaeth ryngwladol yn fwy cystadleuol ac yn fwy sensitif i bris na thwristiaeth ddomestig.[23]

Nododd astudiaeth arall gan Brifysgol Nottingham elastigedd pris cyfartalog o -0.61 ar gyfer twristiaeth yn y DU,[24] sy'n golygu y byddai cynnydd o 1% mewn prisiau yn arwain at leihad o 0.61% yn y galw. Mae hyn yn awgrymu bod twristiaeth yn llai sensitif i bris na'r hyn a nodwyd gan astudiaethau eraill. Mae'r astudiaeth hefyd yn edrych ar elastigedd pris ar gyfer twristiaid o wahanol wledydd a gwahanol ddibenion teithio. Nodir mai ymwelwyr o Sbaen ac Iwerddon yw'r rhai mwyaf sensitif i bris mewn perthynas â newidiadau mewn prisiau yn y sector twristiaeth, gydag elastigedd o -1.38 ar gyfer Sbaen a -1.86 ar gyfer Iwerddon. Mae ymwelwyr o'r Eidal a'r Almaen yn llai sensitif i bris, gydag elastigedd o 0.49 a -0.33 yn y drefn honno. Ymhlith yr holl ddibenion teithio, twristiaid yw'r rhai mwyaf sensitif i newidiadau mewn prisiau gydag elastigedd o -1.23 a theithwyr busnes yw'r llai sensitif i bris, gydag elastigedd o 0.18.

Mae Heffer-Flaata, Voltes-Dorta a Suau-Sachez (2020)[25] yn edrych ar dwristiaid o'r DU sy'n ymweld â Ffrainc, Sbaen a'r Eidal ac maent yn nodi bod teithwyr awyr ychydig yn bris-anelastig yn ystod cyfnod prysur yr haf ac ychydig yn elastig yn ystod y gaeaf. Felly, gallai fod gwahaniaethau tymhorol yn sensitifrwydd ymwelwyr i bris.

---

[20] Comisiwn yr UE (dim dyddiad). Tourism-related taxes across the EU. Ar gael yn: https://ec.europa.eu/growth/sectors/tourism/business-portal/financing-your-business/tourism-related-taxes-across-eu_en [cyrchwyd 22 Mawrth 2021].

[21] Durbarry, R. a Sinclair, M.T. (2000). Tourism taxation in the UK. Christel DeHaan Tourism a'r Sefydliad Ymchwil i Dwristiaeth, Prifysgol Nottingham.

[22] Awdurdod Twristiaeth Prydain (BTA) (2001). The Price Sensitivity of Tourism to Britain.

[23] GLA Economics (2017). Options for a tourism levy for London: A publication for the London Finance Commission.

[24] Blake, A. a Cortes-Jimenez, I. (2007). The Drivers of Tourism Demand in the UK. Christel DeHaan Tourism a'r Sefydliad Ymchwil i Dwristiaeth, Prifysgol Nottingham ar gyfer yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ar gael yn: http://data.parliament.uk/DepositedPapers/Files/DEP2008-2963/DEP2008-2963.pdf [cyrchwyd 22 Mawrth 2021].

[25] Heffer-Flaata, H., Voltes-Dorta, A. a Suau-Sachez, P. (2020). The impact of accommodation taxes on outbound travel demand from the United Kingdom to European Destinations. Journal of Travel Research, 60(4), 749-760.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod elastigedd pris cyfartalog ar gyfer ymwelwyr â'r DU tua -1. Felly, yn ymarferol, gallai'r refeniw o dreth ar gyfer Cymru fod yn is na'r amcangyfrifon a nodwyd. Yn ogystal â'r effaith ar ymwelwyr, gallai fod costau i gyrff gweinyddu yn gysylltiedig â threthi ar dwristiaeth, o ran amser a chostau staff. Mewn ymgynghoriad gan Gyngor Dinas Aberdeen a'r Hag yn yr Iseldiroedd, amcangyfrifwyd bod baich gweinyddol treth ar dwristiaeth i'r Cyngor tua 0.75 CALl. Byddai darparwyr llety yn mynd i hyd yn oed fwy o gost drwy wneud newidiadau i systemau bilio a chyfrifyddu a chasglu ac adneuo'r dreth.[26]

Gallai gwaith ymchwil yn y dyfodol ymgorffori ymateb ymddygiadol gan ddefnyddwyr i dreth ar dwristiaeth mewn model o refeniw o dreth. Pe bai ymwelwyr yn sensitif iawn i bris, nid yn unig y byddai hyn yn lleihau'r refeniw o dreth ond byddai hefyd yn lleihau'r refeniw a gynhyrchir gan y diwydiant twristiaeth. At hynny, efallai y bydd yn werth edrych ar y gost i ddarparwr llety a chynghorau a fydd sy'n gysylltiedig â baich gweinyddol ychwanegol o ganlyniad i osod a chasglu treth ar dwristiaeth.

[26] Cyngor Dinas Caeredin (2018). Edinburgh Transient Visitor Levy.

# Mynegai o Dablau, Ffigurau a Blychau

## Tablau


| | | |
|---|---|---|
| Tabl 1 | Amcangyfrifon o'r refeniw o dreth, £m (treth unffurf) | ii |
| Tabl 2 | Amcangyfrifon o'r refeniw o dreth, £m (treth amrywiadwy) | iii |
| Tabl 3 | Trosolwg o drethi ar dwristiaeth | 5 |
| Tabl 4 | Lefelau treth | 6 |
| Tabl 5 | Amcangyfrifon o'r refeniw o dreth, £m (treth unffurf) | 10 |
| Tabl 6 | Amcangyfrifon o'r refeniw o dreth, £m (treth amrywiadwy) | 11 |


## Ffigurau


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 1 | Niferoedd Ymwelwyr â Chymru 2019 | 9 |
| Ffigur 2 | Amcangyfrifon o'r refeniw o dreth unffurf | 10 |
| Ffigur 3 | Amcangyfrifon o'r refeniw o dreth amrywiadwy | 11 |


## Blychau

**Ni nodwyd unrhyw eitemau yn y tabl cynnwys.**

# ATODIADAU

# Atodiad 1. Data

## a. Yr IPS

Y gwahanol fathau o lety fel y'u dosberthir yn yr IPS yw:

- Gwesty/tŷ llety
- Gwely a Brecwast
- Gwersylla/cartref symudol
- Hostel/Prifysgol/ysgol
- Pentref gwyliau/Canolfan wyliau
- Tŷ Rhent
- Gwestai sy'n aros gyda pherthnasau neu ffrindiau ac sy'n talu am lety
- Gwestai sy'n aros am ddim gyda pherthnasau neu ffrindiau
- Eich cartref eich hun
- Arall

Y gwahanol ddibenion teithio ar gyfer ymwelwyr sy'n dod i Gymru yw:

- Gwyliau
- Busnes
- Ymweld â ffrindiau a pherthnasau
- Astudio
- Arall (e.e. Au pair, triniaeth feddygol, chwilio am waith, gwaith gwirfoddol, ac ati)

## b. Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr

O dan GBTS, nid yw'r gwahanol gategorïau o lety yn annibynnol ar ei gilydd. Y categorïau yw:

- Llety masnachol
  - ☐ Llety masnachol â gwasanaeth
  - ☐ Gwesty/motel
  - ☐ Tŷ llety/llety gwely a brecwast
  - ☐ Llety hunanddarpar (gan gynnwys carafán a gwersylla)
  - ☐ Llety hunanddarpar (heb gynnwys carafán a gwersylla)
  - ☐ Carafán neu wersylla
  - ☐ Carafán deithio (a dynnir)\fan wersylla\cartref modur
  - ☐ Carafán sefydlog – nas perchenogir
  - ☐ Carafán sefydlog – a berchenogir
  - ☐ Pabell
  - ☐ Glampio/llety amgen e.e. yurt, tipi, eco-pod
  - ☐ Hostel
  - ☐ Airbnb/Cartref rhywun arall
- Cartref ffrind, Cartref perthynas, Eich ail gartref\llety cyfran gyfnodol eich hun

Nid yw'r categorïau o ddibenion teithio yn annibynnol ar ei gilydd ychwaith. Y categorïau yw:

- Hamdden
- Gwyliau yn unig
- Gwyliau\pleser\hamdden
- Ymweld â ffrindiau a pherthnasau
  - Ymweld â ffrindiau neu berthnasau – gwyliau yn bennaf
  - Ymweld â ffrindiau neu berthnasau – rheswm arall yn bennaf
- Busnes yn Unig
  - Cynadledda
  - Mynd i arddangosfa\sioe fasnach
  - Teithio\cludo fel cyflogaeth
  - Gwneud gwaith am dâl\ar fusnes
- Taith ysgol
- Rheswm arall

# Atodiad 2. Briff Llywodraeth Cymru

## a. Cyflwyniad

Mae'r Cleient am gomisiynu arfarniad economaidd dangosol o'r ffactorau a allai ddylanwadu ar faint o refeniw a gynhyrchir o Dreth ar Dwristiaeth yng Nghymru, a model cychwynnol y gellir ei addasu yn y dyfodol er mwyn ystyried amodau gwahanol. Y nod y rhoi gwybodaeth amserol a chadarn i'r Cleient am gynnig o'r fath. Bydd angen i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2021.

## b. Cefndir / Nodau / Amcanion

Ers i'r rhestr fer o syniadau am drethi newydd gael ei chyhoeddi yn ystod hydref 2017, mae'r ‘dreth ar dwristiaeth’ wedi cael cryn dipyn o sylw gan y diwydiant, gwleidyddion a'r cyfryngau.

Mae Cynllun Adroddiad ar Bolisi Trethi 2021, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

“Parhau i gasglu tystiolaeth ac i drafod ac asesu, gydag amrywiaeth o randdeiliaid ac arbenigwyr, a oes achos dros ddarparu pwerau caniataol i awdurdodau lleol roi treth twristiaeth ar waith (ni fyddai hyn yn berthnasol i dymor y Senedd hon). Bydd hyn yn cynnwys ystyried goblygiadau parhaus COVID-19 i'r diwydiant twristiaeth”.

Y dybiaeth weithio yw y dylai swyddogion barhau i ystyried opsiynau ar gyfer Treth ar Dwristiaeth ac y dylai'r dreth hon fod yn seiliedig ar bŵer galluogi i awdurdodi lleol godi treth o'r fath, gyda neilltuo meddal i glustnodi'r enillion ar gyfer prosiectau i gefnogi twristiaeth.

Rydym am gaffael darn byr o ymchwil er mwyn llywio'r sail dystiolaeth a sefydlu model cychwynnol o'r refeniw y gellid ei gynhyrchu, a fydd yn llywio'r broses o arfarnu opsiynau os bydd y Senedd nesaf yn dewis parhau i weithio ar ddatblygu Treth ar Dwristiaeth.

## c. Gofyniad

Meithrin dealltwriaeth sylfaenol o'r ffactorau a allai ddylanwadu ar faint o refeniw a gynhyrchir o Dreth ar Dwristiaeth yng Nghymru, a model cychwynnol y gellir ei addasu yn y dyfodol er mwyn ystyried amodau gwahanol.

Byddai'r model yn seiliedig ar dâl dros nos a godir ar lety ac, felly, ni fyddai'n cynnwys, er enghraifft, refeniw a allai gael ei gynhyrchu o ymwelwyr undydd.

Byddai'r ymchwil yn ystyried ac yn modelu goblygiadau'r ffactorau canlynol i'r refeniw y gellid ei gynhyrchu o'r dreth:

i. A gaiff unrhyw gyfradd drethu ei phennu yn genedlaethol neu'n lleol;

ii. Y mathau o lety y byddai unrhyw dreth yn cael ei chodi arnynt;

iii. A gaiff y dreth ei chodi ar lety gwyliau byrdymor fel Airbnb;

iv. Y sail dros y dreth, er enghraifft, cyfradd unffurf y pen y noson, cyfradd unffurf fesul ystafell y noson neu ganran o'r tâl am y llety ac ati.

Efallai y bydd yr ymchwil yn ystyried dosbarthiad posibl refeniw ledled Cymru. Gallai hefyd ystyried dadansoddiad o refeniw yn ôl gwahanol fathau o lety, ymwelwyr domestig neu dramor ac ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

LE Wales

Tŷ Sophia, 28 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd CF11 9LJ, Cymru
info@le-wales.co.uk
www.le-wales.co.uk
@LE_Wales
ffôn: +44 (0)2920 660 250
ffacs: +44 (0)2920 660 251